Wythnos ddathlu- Ysgol Nefyn yn 150 oed

Bu prysurdeb mawr a hwyl a sbri yn Ysgol Nefyn yn ystod wythnos y dathlu. Dyma ddyddiadur yr wythnos.

Dydd Gwener- Ffair Haf (Pawb yn gwisgo dillad Oes Fictoria- ar gae'r ysgol)

Dydd Sadwrn- Te yng ngardd yr hen ysgol, Eglwys- Penbryn Hobwr. Astudio hen luniau. Gwylio hen ffilmiau.

Dydd Sul- Cymanfa ganu teuluol- Capel Isa o dan arweiniad y Parchedig Robert Roberts ac Anti Nia (Coleg y Bala).

Dydd Llun- Cyngerdd dathlu- Canolfan Nefyn.

Nos Lun- Bingo-Ysgol Nefyn

Dydd Mawrth- Helfa drysor o'r ysgol- Dewch â Nain gyda chi.

Nos Fawrth- Cyngerdd dathlu- Canolfan Nefyn

Dydd Mercher- Paratoi ar gyfer yr Eisteddfod ysgol.

Dydd Iau- Eisteddfod yr ysgol- Canolfan Nefyn

Dydd Llun- Parti Môr Ladron- Plant yn gwisgo gwisg môr ladron.

(Gohirwyd noson gyda Celt yn y ganolfan oherwydd diffyg diddordeb. Gobeithiwn ail gynnal y noson yn ystod tymor yr Hydref pan fydd noson aduniad Ysgol Nefyn yn cael ei chynnal Bydd disgiau o'r cyngerdd ar werth yn ystos tymor yr Hydref ynghyd mae gwahanol eitemau bychan i gofio'r achlysur pwysig ar gael yn yr ysgol 'nawr.)

Cafodd yr holl ddisgyblion dynnu eu lluniau mewn gwisgoedd Oes Fictoria. Bu Amgueddfa Llanystumdwy yn garedig iawn yn rhoi benthyg dilladau inni,

Mae croeso cynnes i unrhyw un sy'n dymuno galw'n yr ysgol i weld hen luniau o Nefyn. Diolch i gyfeillion amgueddfa Nefyn am y llu lluniau gwerthfawr a fenthycwyd ganddynt ac hefyd i'r rhieni a ffrindiau am eu cyfraniad hwythau.

Diolch hefyd i'r staff ac aelodau Cymdeithas Rieni a gyfranodd tuag at gael wythnos gwerth chweil.

Sylwadau rhai o'r disgyblion-

"Roeddwn yn teimlo'n hapus ac yn falch bod yn rhan o'r dathlu" Mari Wynne

"Rwy'n falch fy mod yn blentyn yn Ysgol Nefyn" (Owain Parry)

"Rwy'n methu aros nes bydd yr ysgol yn ddau gant oed" Gethin Prys Jones

"Rwy'n hapus am fy mod wedi mwynhau fy hun yn fawr fawr iawn" Guto Llyr Williams.